Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd

Dyddiad: Dydd Gwener 21 May 2004
Amser: 10.00am to 1:00 pm
Lleoliad: Nghanolfan Ddinesig, Cei Connah, Wepre Drive, Cei Connah.
Teitl: Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd: Pumed adroddiad: Masnach Deg yng Ngogledd Cymru

Cyflwyniad

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd yn un o bedwar o bwyllgorau rhanbarth y Cynulliad. Mae'n cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Wrecsam a'r ardal o Wynedd sy'n cynnwys hen ardaloedd Arfon a Dwyfor.
2. Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2, swyddogaeth y pwyllgorau rhanbarth yw cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion sy'n ymwneud â'u rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad ar y rhanbarthau hynny, a gwaith cyrff cyhoeddus yn y rhanbarthau.
3. Yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2004, i gyd-fynd â phythefnos Masnach Deg, ceisiodd y Pwyllgor godi ymwybyddiaeth a chlywed barn pobl Gogledd Cymru am Fasnach Deg. Cafwyd crynodeb o'r pwyntiau a godwyd gan y cyhoedd yng Ngogledd Cymru yn yr adroddiad hwn.

Prif negeseuon

4. Dyma'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r cyfarfod:

- Galw am ddatganiad cyhoeddus o gefnogaeth i Fasnach Deg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chefnogaeth i Fasnach Deg drwy ei bolisïau a pholisïau cyrff cyhoeddus eraill.
- Galw am ganllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gaffael sector cyhoeddus, yn arbennig caffael Masnach Deg a nwyddau wedi'u cynhyrchu'n lleol;
- Yr angen i ystyried Masnach Deg a chafael lleol gyda'i gilydd, fel materion sydd â chysylltiad agos â'i gilydd.

Cyflwyniadau

5. Yn y cyfarfod gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniadau byr fel a ganlyn. Mae copïau ohonynt yn yr Atodiadau.

- Cynrychiolwyr o'r mudiad Masnach Deg yng Ngogledd Cymru yn disgrifio beth yw diben Masnach Deg, y cefndir i'r ymgyrch Masnach Deg yng Ngogledd Cymru, a beth all y Cynulliad

ei wneud i helpu;
- Michael Cantwell ar brofiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel y Cyngor cyntaf i gael statws Masnach Deg;
- Mari Jones, Cyfeillion Gwledig Môn, ynghylch prosiect sy'n cyfuno hybu deiet iach a chefnogi bwyd a gynhyrchir yn lleol.

Sylwadau gan aelodau'r cyhoedd yn y Gogledd

5. Dyma'r pwyntiau a godwyd gan aelodau'r cyhoedd:

- Dywedodd Jean Davies, Cyngor Tref Conwy, fod y Cyngor wedi ymrwymo i Fasnach Deg, ond ei bod yn profi anawsterau yn caffael nwyddau Masnach Deg oherwydd rheolau sy'n llywodraethu caffael sector cyhoeddus;
- Roedd Arwyn Evans, CCU Cymru, o'r farn y gallai materion caffael fod yn gamarweiniol a galwodd ar y Cynulliad i ddangos arweiniad wrth gaffael nwyddau Masnach Deg;
- Llongyfarchodd Hywel Williams, Aelod Seneddol Caernarfon, y Pwyllgor am ganolbwyntio ar y pwnc hwn a galwodd ar y Cynulliad i roi pwysau ar Lywodraeth y DU i hwyluso Masnach Deg;
- Pwysleisiodd cynrychiolydd o'r Grwp Cydweithredol yr amlgen am gyfrifoldeb corfforaethol yn ogystal â chyfrifoldeb sector cyhoeddus. Roedd y Co-op yn cyflenwi mwy o nwyddau Masnach Deg nag unrhyw fân-werthwr arall, ac roedd eraill bellach yn dilyn ei esiampl. Weithiau roedd angen i fân-werthwyr gymryd risgiau er mwyn cyflwyno'u blaenoriaethau - fel penderfyniad y Co-op i drosi ei holl gynnyrch sydd ag enw brand i fod yn gynnyrch Masnach Deg - er mwyn cyflwyno Masnach Deg i ffermwyr yng ngwledydd y trydydd byd;
- Dywedodd Owen Meredith, Cadeirydd Tear Fund Cymru, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd camau i hyrwyddo nwyddau Masnach Deg a nwyddau wedi'u cynhyrchu'n lleol;
- Dywedodd cynrychiolydd o Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor fod y Brifysgol yn ymgyrchu i ennill statws Masnach Deg;
- Awgrymodd y Cynghorydd Gerwyn Jones, Cyngor Tref Llangefni, y gallai defnyddwyr lleol ddylanwadu ar bolisi tramor drwy greu marchnad ar gyfer nwyddau Masnach Deg. Galwodd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gael dweud ei ddweud drwy Gyngor Gweinidogion yr UE;
- Gofynnodd Ann Marie Flynn, y Ganolfan Dechnoleg Amgen, a ellid bodloni'r galw am nwyddau organig;
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Bob Parry, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn, yr angen i gael chwarae teg i ffermwyr organig, er mwyn goresgyn anawsterau sy'n gysylltiedig â marchnata nwyddau cynnyrch isel, a'r angen i drosglwyddo arbedion i ddefnyddwyr. Nodwyd y byddai'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno polisi Masnach Deg;
- Pwysleisiodd Tony Graham, Siopau Natur Eco Cymru, y cysylltiad rhwng Masnach Deg a chynnyrch organig, a'r angen i'r Cynulliad hyrwyddo'r ddau;
- Cododd Tony McNichol bryderon fod ffatri leol sy'n prosesu cig, yn ôl y sôn, yn cyflogi gweithwyr am lai na'r isafswm cyflog. Dywedodd Aelodau'r Pwyllgor y dylid tynnu sylw'r awdurdodau perthnasol at y pryderon hyn;
- Dywedodd Jayne Bailey, Esgobaeth Bangor, fod yr esgobaeth yn gweithio tuag at statws Masnach Deg erbyn yr hydref, a gofynnodd i sefydliadau lleol eu cynnwys mewn mentrau tebyg.

Sylwadau ysgrifenedig

7. Cyflwynwyd sylwadau ysgrifenedig cyn yn cyfarfod, yn ystod y cyfarfod ac yn dilyn y cyfarfod. Maent wedi'u hatgynhyrchu yn yr Atodiadau. Dyma'r prif bwyntiau a ddeilliodd ohonynt:

- Tynnodd Ian Miller, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, sylw at broblemau sy'n wynebu Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych oherwydd ei dull o gontractio o fewn Cymru yn unig. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r pwynt hwn a materion cysylltiedig a godwyd yn yr adroddiad hwn.

- Soniodd y Parch Jane Bailey fod yr Eglwys yng Nghymru â diddordeb arbennig mewn hyrwyddo ac annog cynaliadwyedd.

Y Camau Nesaf

8. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Prif Weinidog, y Gweinidog dros yr Amgylchedd a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithsol, gan alw arnynt i ymateb i'r pwyntiau a godwyd. Bydd copïau hefyd ar gael i'r pwyllgorau perthnasol.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Gellir gweld copi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn www.cymru.gov.uk Os hoffech gael copi caled, anfonwch e-bost at NWales.regcomm@wales.gsi.gov.uk neu ffoniwch Silvia Ricondo ar 029 2089 8018.

Atodiadau

Cyflwyniadau a dogfennau cysylltiedig

Mudiad Masnach Deg (Atodiad 1)
Michael Cantwell (Atodiad 2)
Mari Jones (Atodiad 3)
Crynodeb gweithredol o'r Astudiaeth Ddichonoldeb a gomisiynwyd gan Rwydwaith Farchnad y Ffermwyr (Atodiad 4)

Sylwadau ysgrifenedig (copïau caled yn unig)

Ian Miller (Atodiad 5)
Parch Jane Bailey (Atodiad 6)